

Cyngor Cymuned Llangywer

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

15 o Fai, 2012

Presennol: Dafydd Williams (Cadeirydd), Linda Morris (Is Gadeirydd), John Morris, Eleri Jones, Olwen Jones, Gwyn Roberts, Emyr Jones, Lis Puw (Clerc)

1. Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan Y Cyngorydd Sir, Alan Evans, a gan John Morris. Dymunwyd adferiad iechyd buan i Mr Morris.
2. Nid oedd angen i neb wneud datganiadau o ddiddordeb / buddiant mewn materion ar yr agenda
3. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Mawrth 12, 2012

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

- 4.1. Mae'r Llyfryn cerrig beddi yn Llangywer yn cael ei fenthyg gan y Cyngorwyr yn eu tro.
- 4.2. Derbyniwyd gwybodaeth gan Dylan Wyn Jones o Gyngor Gwynedd am y bwriad i farcio ARAF ar y ffordd yn y pentref.

5. Gohebiaeth :

- 5.1. Cadarnhawyd gwrthwynebu Cais Cynllunio Pant yr onnen
- 5.2. Derbyniwyd gwybodaeth am wrthod datblygiad yn y Gilrhos
- 5.3. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i waith peirianyddol ac i adeiladu wal gynnal ac adeilad amaethyddol yn Llechwedd Ystrad.
- 5.4. Derbyniwyd gwybodaeth am ddiwrnod agored yn swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ar Fehefin 19.
- 5.5. Derbyniwyd copi o'r Llais
- 5.6. Cytunodd Dafydd Williams i gynrychioli'r Cyngor ar Fforwm Ardal Meirionnydd o Un Llais Cymru ar 23 o Fai.
- 5.7. Derbyniwyd gwybodaeth mai Iestyn Pritchard yw swyddog prosiect adfywio Meirionnydd ar hyn o bryd.
- 5.8. Nodwyd gwahoddiad Cymdeithas yr iaith i lansiad ym Mhenygroes.
- 5.9. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Glybiau Ffermwyr Ieuan Meirionnydd. Derbyniwyd tystysgrif diolch gan Ambiwlans Awyr Cymru. Cytunwyd i arddangos diolchiadau uchod ar hysbysfwrdd y Neuadd.

6. Materion ariannol:

- 6.1. Derbyniwyd y praesept
- 6.2. Cytunwyd i wneud y cyfraniad at weinyddu Partneriaeth Penllyn
- 6.3. Cytunwyd i dalu Tâl Aelodaeth Un Llais Cymru

Cyngor Cymuned Llangywer

- 6.4. Cytunwyd i dalu am Hyfforddiant y Clerc yn ddiweddar.
- 6.5. Rhoddwyd ystyriaeth i'r bil Yswiriant. Cytunwyd i aros am ddyfynbris arall ac i'r Clerc a'r Cadeirydd benderfynu ar y gorau.
- 6.6. Derbyniwyd gwybodaeth am ffioedd claddu
- 6.7. Cytunwyd i dalu bil ac i anfon bil at yr Ymgymerywr yn dilyn claddedigaeth diweddar.
- 6.8. Derbyniwyd gwybodaeth am Archwilio'r cyfrifon a ffurflen Hacker Young

7. Partneriaeth Penllyn :

- 7.1. Derbyniwyd Adroddiad am y datblygiadau diweddar gan y Cynrychiolwyr. Soniwyd am yr ymdrech i gael Partneriaeth Penllyn i fod yn endid annibynnol, ac am yr Holiadur Cymunedol llwyddiannus a oedd yn cadarnhau dymuniad clir trigolion yr ardal i gael Canolfan Gwasanaethau yn Y Bala. Clywyd hefyd am y posibilrwydd y bydd Gwynedd yn defnyddio'r ardal i beilotio gweithredu'n fwy lleol. Mae'r amser yn prysuro ymlaen i wario'r Grant Cymunedol ac mae'r Bartneriaeth yn ymchwilio i bosibiliadau rhentu neu brynu ar y Stryd Fawr.
- 7.2. Derbyniwyd copi o'r Cytundeb rhwng Partneriaeth Penllyn a Chyngor Gwynedd.

8. Unrhyw Fater Arall

Mynegwyd anfodlonrwydd nad oes ystyriaeth yn cael ei roi i farn leol mewn materion cynllunio a gofynnwyd i'r Clerc fynegi hyn wrth y Parc Cenedlaethol.